

Agenda



Cwestiynau ac Ymatebion Ffurfiol y Cyngor

Dyddiad: Dydd Mawrth, 20 Gorffennaf 2021

Amser: Time Not Specified

Lleoliad:

At: Cyngorwyr:

Eitem

Wardiau Dan Sylw

1 Cwestiwn i'r Aelod Cabinet dros Wasanaethau Dinas (Dirprwy Arweinydd)- 2021/11- Fforddiadwyedd y Cynllun Terfyn 20mya Gofynnodd y Cyngorydd Fouweather:

Mewn cyfarfod awdurdod yr heddlu yn ddiweddar, holodd yr aelod Plaid Lafur dros Gasnewydd a fyddai'r heddlu'n darparu adnoddau ychwanegol i blismona'r terfynau cyflymder o 20mya. Dywedwyd wrth yr aelod bod dwy ardal beilot yng Ngwent ac mai Casnewydd yw un ohonynt. Byddai'r penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid gweithredu'r terfynau cyflymder hyn yn barhaol yn cael ei wneud ar ôl i'r cynllun peilot ddod i ben.

O ystyried swm sylweddol o arian sydd eisoes wedi'i wario ar y cynllun hwn, a fydd y cyngor yn gallu adennill costau gweithredu a dileu'r cynllun hwn pe penderfynid peidio â pharhau ag ef?

Rwy'n deall mai arian Llywodraeth Cymru yw hwn, ond mae'n werth cofio nad oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw arian mewn gwirionedd gan fod ganddynt arian trethdalwyr.

Atebodd y Cyngorydd R. Jeavons:

Fel y gwyddoch, mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cyhoeddi y dylid cyflwyno terfyn cyflymder 20mya cenedlaethol fel mater o drefn ar gyfer ardaloedd preswyl yng Nghymru cyn gynted â phosibl.

Nid yw'r awdurdod wedi mynd i gostau ar gyfer treialon diogelwch ar y ffyrdd sy'n cynnwys cyflwyno cynlluniau 20mya, felly nid yw'r cwestiwn am y Cyngor yn adennill costau yn berthnasol yn yr achos hwn.

Yn ogystal, gwnaeth y Tasglu 20mya, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i ystyried y terfyn diodyn newydd, nifer o argymhellion, a derbyniwyd pob un ohonynt gan Lywodraeth Cymru, a oedd yn cynnwys darparu adnoddau

Person cyswllt: ,

Ffôn:

E-bost:Cabinet@newport.gov.uk

Dyddiad cyhoeddi: Date Not Specified

ychwanegol i awdurdodau priffyrdd lleol i weithredu'r newidiadau. Felly, nid yw'r Cyngor yn disgwyl unrhyw gostau yn ymwneud â'r cynnig hwn.